## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4076 (HAMILTON TERRACE A GREAT NORTH ROAD, ABERDAUGLEDDAU, SIR BENFRO) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn hwyluso cynnal Gwasanaeth Sul y Cofio ar gefnffordd yr A4076, neu gerllaw iddi, yn Aberdaugleddau yn Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio cerbydau'r digwyddiad a cherbydau'r gwasanaethau brys) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4076 a elwir yn Hamilton Terrace a Great North Road sy'n ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain o gyffordd Hamilton Street â Dartmouth Street hyd at gyffordd Great North Road â Charles Street.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd-ddwyrain fydd mynd tua'r gogledd ar hyd Dartmouth Street a thua'r dwyrain ar hyd Robert Street hyd at ei gyffordd â Great North Road. Bydd cerbydau sy'n teithio tua'r de-orllewin yn mynd tua'r gorllewin ar hyd Charles Street a thua'r de ar hyd Dartmouth Street.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol o 10:00 o'r gloch hyd 12:00 o'r gloch ar 13 Tachwedd 2022.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A4076 TRUNK ROAD (HAMILTON TERRACE AND GREAT NORTH ROAD, MILFORD HAVEN, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the holding of the Remembrance Sunday Memorial Service on the A4076 trunk road at Milford Haven in the County of Pembrokeshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than event and emergency service vehicles) from proceeding on the length of the A4076 trunk road known as Hamilton Terrace and Great North Road that extends in a general easterly direction from the junction of Hamilton Street with Dartmouth Street to the junction of Great North Road with Charles Street.

The alternative route for north-eastbound vehicles will be to proceed northbound along Dartmouth Street and eastbound on Robert Street to its junction with Great North Road. South-westbound vehicles will proceed westbound along Charles Street and southbound on Dartmouth Street.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate from 10:00 hours until 12:00 hours on 13 November 2022.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government